| | |
|---|---|
| **Adroddiad i'r:** | **Pwyllgor Archwilio Partneriaethau** |
| **Dyddiad y Cyfarfod:** | **14 Rhagfyr 2017** |
| **Aelod / Swyddog Arweiniol:** | **Arweinydd Cyngor Sir Ddinbych / Pennaeth Gwella Busnes a Moderneiddio** |
| **Awdur yr Adroddiad:** | **Rheolwr Tîm Cynllunio Strategol** |
| **Teitl:** | **Cynllun Lles Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Conwy a Sir Ddinbych 2018 – 2022** |

## 1. Am beth mae'r adroddiad yn sôn?

Cynllun Lles Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Conwy a Sir Ddinbych 2018 – 2022.

## 2. Beth yw'r rheswm dros lunio'r adroddiad hwn?

2.1 O dan Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 rhaid i Fwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Conwy a Sir Ddinbych gynhyrchu Cynllun Lles erbyn Mai 2018. Wrth ddatblygu'r Cynllun hwn mae cyfnod ymgynghori statudol o ddeuddeg wythnos, ac mae Pwyllgorau Archwilio / Craffu'r awdurdodau lleol yn ymgyngoreion statudol.

2.2 Unwaith bydd y cynllun lles lleol wedi ei gytuno bydd y BGC yn gweithio ar ddatblygu camau gweithredu lle gall dull cydweithredol gael effaith sylweddol.

## 3. Beth yw'r Argymhellion?

3.1 Derbyn a chefnogi'r adroddiad.

3.2 Ymateb i gwestiynau'r ymgynghoriad a restrir isod (dyddiad cau 22 Ionawr):

i. Ydych chi'n cytuno gyda'r Blaenoriaethau Lles mae'r BGC yn ceisio'u cyflawni?
ii. Lle ydych chi'n credu fyddai pŵer cyfun y BGC yn gallu gwneud gwahaniaeth?
iii. Ar ba flaenoriaethau ddylem ni ganolbwyntio yn gyntaf?
iv. Oes angen newid unrhyw beth yn y drafft hwn?
v. Ydyn ni wedi gadael unrhyw beth allan o'r cynllun hwn?
vi. Rydym eisiau i bobl barhau i gyfranogi. Sut gallwn ni'n wneud hyn?
vii. Unrhyw sylwadau neu syniadau eraill?

3.3 Er mwyn i gydweithio fod yn effeithiol, rhaid i flaenoriaethau a gwaith y BGC gael eu sefydlu yng ngwaith Cyngor Sir Ddinbych (ac fel arall). Gofynnir i Aelodau ystyried sut gellid gwneud / cryfhau hyn; a

3.4 Bod y Pwyllgor yn cadarnhau ei fod wedi darllen, deall ac ystyried yr Asesiad o Effaith ar Les (Atodiad B) yn rhan o'i ystyriaethau.

## 4. Manylion yr adroddiad

4.1 Sefydlwyd Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Conwy a Sir Ddinbych yn Ebrill 2016. Fe’i sefydlwyd o ganlyniad i Ddeddf Llesiant Cenedlaethau’r Dyfodol (Cymru) 2015 (roedd Bwrdd Gwasanaethau Lleol cyn hyn), sy’n nodi fod BGC yn statudol, a bod yn rhaid iddo gydweithio er mwyn mynd i'r afael â materion pwysig ei ardal. Mae'r BGC wedi ymrwymo i gydweithio, ac yn croesawu’r ffaith bod deddfwriaeth yn gwneud y dull hwn o weithio’n angenrheidiol.

4.2 Mae Aelodaeth y BGC yn cynnwys:

- Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr
- Cefnogaeth Gymunedol a Gwirfoddol Conwy
- Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy
- Cyngor Sir Ddinbych
- Cyngor Gwasanaethau Gwirfoddol Sir Ddinbych
- Cyfoeth Naturiol Cymru
- Y Gwasanaeth Prawf Cenedlaethol
- Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru
- Heddlu Gogledd Cymru
- Comisiynydd yr Heddlu a Throsedd
- Iechyd Cyhoeddus Cymru
- Cwmni Adsefydlu Cymunedol Cymru
- Llywodraeth Cymru

4.3 Mae'r Arweinydd a’r Prif Weithredwr yn cynrychioli Cyngor Sir Ddinbych ar y bwrdd. Cyfarwyddwr Rhanbarth Canolog Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr sy’n cadeirio’r BGC. Prif Weithredwr Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy yw'r Is Gadeirydd.

4.4 Mae deddfwriaeth yn nodi fod yn rhaid i’r Bwrdd gytuno ar Gynllun Lles y BGC o fewn deuddeg mis o etholiadau llywodraeth leol, sy’n rhoi dyddiad cau o 3 Mai 2018. Cyn hynny rhaid cynnal cyfnod ymgynghori o ddeuddeg wythnos, a rhaid i’r Cynllun gael ei gymeradwyo gan Fyrddau pob sefydliad sy’n aelodau o'r BGC (yn achos Cyngor Sir Ddinbych, y Cyngor Llawn fydd hwn, ac mae’r Cynllun i’w drafod ar 20 Chwefror).

4.5 Mae’r Cynllun (Atodiad A) wedi ei ddatblygu yn seiliedig ar dystiolaeth o’r Asesiad Lles, a gwaith Sgwrs y Sir a gynhaliwyd ar draws Conwy a Sir Ddinbych. Defnyddiwyd yr un sail tystiolaeth i ddatblygu Cynllun Corfforaethol Dinbych ei hun ar gyfer 2017 – 2021. Felly mae synergeddau.

4.6 Mae deddfwriaeth yn cynghori y dylai blaenoriaeth y BGC adlewyrchu meysydd gwaith lle mae angen ymateb cydweithredol.

4.7 Ym mis Ionawr 2017 cynhaliwyd gweithdy gydag aelodau’r BGC er mwyn adolygu'r dystiolaeth a datblygu rhai syniadau ar gyfer meysydd blaenoriaethu gwaith. Trefnwyd y meysydd hyn yn ôl themâu Cymdeithasol, Diwylliannol, Amgylcheddol ac Economaidd.

4.8 Cynhaliwyd gweithdai ar bob thema yn ystod Mai 2017, lle gwahoddwyd cydweithwyr priodol o'r sector cyhoeddus i roi sylwadau ar sut i fynd i’r afael â’r problemau a’r risgiau a amlinellir o dan bob thema.

4.9 Cytunwyd ar restr hir o flaenoriaethau drafft gan y BGC ym mis Gorffennaf 2017, ac mae gwaith wedi ei wneud dros yr haf i ddrafftio Cynllun. Ar gyfer pob blaenoriaeth mae’r Cynllun yn amlinellu'r nod / cyflwr y dyhëir amdano yn y dyfodol; yn darparu'r cyd-destun cyfredol; ac yn darlunio effaith debygol diffyg ymyrraeth.

4.10 Mae’r BGC yn cwrdd bob chwarter, a does ganddo ddim adnodd penodol o safbwynt cyllid na phersonél. Felly, yn y cyd-destun hwn, mae’r Bwrdd wedi ystyried pa rôl y gall ei chwarae wrth gyflawni ei flaenoriaethau mewn ffordd sy’n ymarferol/cyraeddadwy ac yn effeithiol.

4.11 Gan fod llawer o flaenoriaethau sefydliadau Aelodau’r BGC yn cael eu hadleisio yng Nghynllun Lles y BGC (ac mae hyn yn sefyllfa sy’n debyg i rai o nodau Cynllun Corfforaethol Sir Ddinbych) byddai dyblygu ymdrech pe byddai’r BGC hefyd yn comisiynu gwaith. Yn hytrach, lle mae angen ymdrech gydweithredol i weithio i gefnogi blaenoriaethau’r BGC (sy’n digwydd yn aml), cytunwyd y dylai’r BGC gymryd rôl arweinyddiaeth er mwyn dileu rhwystrau i gyflawni’r gwaith yn llwyddiannus.

## 5. Sut mae'r penderfyniad yn cyfrannu at y Blaenoriaethau Corfforaethol?

Pan fydd gorgyffwrdd rhwng Cynllun Lles y BGC a Chynllun Corfforaethol Sir Ddinbych dylid bod cyfle i gryfhau gwaith sy’n cefnogi’n blaenoriaethau corfforaethol oherwydd yr ymrwymiad amlwg gan sefydliadau partner i weithio tuag at ganlyniadau ar y cyd.

## 6. Faint fydd yn ei gostio a sut fydd yn effeithio ar wasanaethau eraill?

Fel arfer darperir cymorth ar gyfer y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus gan dimau Cynllunio Strategol sefydliadau partner. Mae'r costau hyn yn cael eu cwrdd gan sefydliadau partner.

## 7. Beth yw prif gasgliadau’r Asesiad o’r Effaith ar Les?

Mae’r asesiad o effaith yn ystyried effaith ein dull gweithredu o ran datblygu Cynllun Lles Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Conwy a Sir Ddinbych ar gyfer yr ardal. Rydym wedi gwrando ar ein trigolion a gweithio gyda’n rhanddeiliaid i siapio 6 blaenoriaeth a’r uchelgais ar gyfer pob un. Mae’n sgôr Datblygu Cynaliadwy yn gryf, ond mae hefyd yn dweud wrthym am ystyriaethau pellach sydd angen eu gwneud wrth i fanylion y cynllun gael ei ddatblygu a'i gyflawni gan y Bwrdd. Nid yw’r Cynllun yn amlinellu unrhyw weithgarwch, dim ond cyfeiriad gweithredu. Byddem yn disgwyl i unrhyw brosiectau sy’n cael eu symud ymlaen er mwyn gwireddu’r uchelgais oddi mewn iddo gael eu hasesu yn unigol o ran effaith. Bydd y Cynllun Lles yn ceisio cefnogi’r 1000 diwrnod cyntaf o fywyd, helpu’r rhai sy’n dioddef o broblemau iechyd meddwl, a hyrwyddo gwytnwch mewn pobl hŷn, gan ddefnyddio dulliau gweithredu ataliol ac ymyraethau cynnar. Fodd bynnag, rhaid i ni fod yn ofalus rhag ail-wneud gwaith da sydd eisoes yn digwydd mewn llefydd eraill.

Byddwn hefyd yn darparu cynllun ar gyfer gwytnwch cymunedol ac amgylcheddol drwy, yn rhannol, hyrwyddo dealltwriaeth, mynediad at wybodaeth a gwneud y mwyaf o’n hasedau.
Bydd ein pobl ifanc hefyd yn cael eu cynorthwyo i fod yn gryf ac yn uchelgeisiol, gan herio rhwystrau i sgiliau, swyddi, tai ac anghydraddoldeb mewn addysg.

Fodd bynnag, rydym yn teimlo fod canolbwynt ein blaenoriaethau dros y tymor canolig. Mae angen i ni sicrhau fod cymunedau a rhanddeiliaid â chyfleoedd parhaol i ymwneud â datblygiad y cynllun, ac yn ei weithrediad.

Mae’r blaenoriaethau arfaethedig yn canolbwyntio ar gryfder i bawb a byddant yn annog ymagweddau gwahanol i atal problemau rhag codi.

Yn gyffredinol mae'r effaith ar y 7 amcan o ran lles yn bennaf yn gadarnhaol. Mae arnom angen mwy o wybodaeth er mwyn penderfynu ar yr effaith ar Gymru fwy cyfartal, ac yn hanfodol, beth allwn ni ei wneud er mwyn gwneud y gorau i gael effaith gadarnhaol ar bobl sydd â nodweddion sydd wedi eu hamddiffyn. Mae posibilrwydd o ganlyniadau negyddol ar rai nodweddion sydd wedi eu hamddiffyn a dylid ymdrin â’r rhain a’u rheoli er mwyn eu hatal rhag digwydd. Rydym wedi darganfod mai effaith niwtral sydd ar yr iaith Gymraeg a diwylliant Cymru, ond yn nodi fod Strategaethau Iaith Gymraeg ein sefydliadau partner yn sail i’r oll rydym yn ei wneud.
Gweler Atodiad B am adroddiad llawn.

## 8. Pa ymgynghoriadau a gynhaliwyd gydag Archwilio ac eraill?

8.1 Mae datblygiad y cynllun wedi ei lywio gan drigolion yn ystod Sgwrs y Sir, a gan gydweithwyr proffesiynol fel rhan o weithdai hel syniadau.

8.2 Mae swyddfa Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol wedi darparu adborth ysgrifenedig ar y prosesau sydd wedi eu dilyn. Gweler Atodiad C.

8.3 Ers i’r drafft hwn gael ei gymeradwyo ar gyfer ymgynghoriad, mae’r Cynllun drafft wedi ei rannu yng Nghyfarfod Briffio'r Cabinet yn Sir Ddinbych a gyda'r Uwch Dîm Arweinyddiaeth.

8.4 Mae rhestr o ymgyngoreion statudol yn Atodiad D, y bydd eu sylwadau'n cael eu hystyried fel mae'r Cynllun yn agosáu at gael ei gwblhau.

## 9. Datganiad y Prif Swyddog Cyllid

Nid oes adnoddau ychwanegol wedi eu dyrannu ar gyfer cyflawni blaenoriaethau. / Fel mae’r blaenoriaethau’n cael eu datblygu mewn mwy o fanylder, bydd y BGC yn asesu dyraniad capasiti staff ac neu adnoddau cyllid un ai o gyllidebau presennol neu drwy geisiadau grant.

## 10. Pa risgiau sydd yna ac oes yna unrhyw beth y gallwn ei wneud i'w lleihau?

Mae risg fod blaenoriaethau Sir Ddinbych a Blaenoriaethau Lles y BGC yn groes i'w gilydd.

## 11. Pŵer i wneud y Penderfyniad

Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015
Amlinellir pwerau Archwilio o ran y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus yn Adrannau 7.3, 7.4.1, a 7.15.2.

**Swyddog Cyswllt:**
Rheolwr Cynllunio Strategol
Rhif ffôn: 01824 708079